

STORI SAM

Adnodd gwrthfwlio ar gyfer
Ysgolion Cynradd gan
Gomisiynydd Plant Cymru
Ysgrifennwyd gan Ysgol
Gynradd Penygawsi, Llantrisant

Fe fydd e'n gwella

SAM'S STORY

It will get better

An **anti-bullying resource** for
Primary Schools by the Children's
Commissioner for Wales

Written by Penygawsi Primary School,
Llantrisant



www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk



Ysgol Gynradd Penygawsi
Penygawsi Primary School

PAM MAE'R ADNODD HWN YN BODOLI?

Pan ddaeth Sally Holland yn Gomisiynydd Plant Cymru, bu'n ymgynghori â mwy na 6000 o blant a phobl ifanc i ganfod eu blaenoriaethau. Daeth bwlio i'r amlwg fel prif bryder i blant a phobl ifanc yng Nghymru. I weld beth roedd plant a phobl ifanc yn teimlo fyddai'r ffordd orau o ddelio gyda hynny, lansiodd Sally [Stori Sam](#). lle bu'n ymgynghori â mwy na 2000 o blant a phobl ifanc i ddarganfod barn pobl ifanc ynghylch y ffordd orau o atal bwlio a mynd i'r afael ag ef. Ar ôl gwrandao ar y bobl ifanc, un o brif argymhellion Sally oedd bod pob person ifanc o bob oed yn cael amser bugeiliol wedi'i hwyluso i fyfrio ar eu perthnasoedd a'u trafod. Mae'r adnodd hwn yn helpu pob ysgol gynradd yng Nghymru i alluogi eu disgyblion i gael y profiad hwn trwy fideos, gweithgareddau a chanllawiau ategol.

BETH YW'R ADNODD?

Datblygwyd yr adnodd hwn gan Rebecca Rees, un o athrawon Ysgol Gynradd Penygawsi. Defnyddiodd Rebecca ddull ysgol gyfan o gyflwyno tasg arbennig Stori Sam ym mis Hydref 2016, gan ddatblygu cyfres o gynlluniau gwersi wedi'u gwahaniaethu ar gyfer pob cyfnod allweddol ac addasu adnoddau oedd eisoes yn bodoli. Yr adnodd yw'r dull addysgu a ddefnyddiwyd ym Mhenygawsi, wedi'i amlinellu mewn cyfres o gynlluniau gwersi gyda gwybodaeth ategol ac adnoddau perthnasol. Mae'n gynllun ysgol gyfan o waith sydd wedi'i ddefnyddio a'i brofi, ac y gellid ei ddefnyddio yn ystod wythnos Gwrthfwlio.

BETH FYDD YR ADNODD HWN YN EI GEFNOGI YN FY YSGOL?

Bydd hyn yn cefnogi eich ysgol i ddarparu profiadau cysylltiedig â'u llesiant i'r disgyblion, fel y pennwyd yn [Fframwaith Arolygu Estyn 2017](#) ac mae'n cynnwys gwerthusiad integredig i olrhain effaith y gweithgareddau ar lesiant eich disgyblion. Mae cysylltiad rhwng yr adnodd hefyd â'r [Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol](#) a bydd yn cefnogi datblygiad deilliannau'r FfLIRh. Bydd y disgyblion hefyd yn dod i ddeall eu hawliau, fel y nodwyd yng [Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#), a bydd hynny'n helpu i ddatblygu unigolion iach a hyderus, sy'n gallu cyfrannu fel dinasyddion moesegol, gwybodus yng nghymuned eu hysgol.

ADNODDAU YCHWANEGOL

Mae [Y Ffordd Gywir](#), [Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i addysg yng Nghymru](#), yn rhoi i ysgolion fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer diogelu anghenion a llesiant tymor hir plant a phobl ifanc. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn argymhell bod pob lleoliad addysg yn defnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, a bod hynny'n cynnig fframwaith cydlynus a fydd yn sail ar gyfer gwaith ar lesiant, ymddygiad iach a pherthnasoedd cyfoedion. Gall ysgolion hefyd gyrchu canllawiau ac amrywiaeth eang o adnoddau dysgu ac addysgu i ddatblygu eu dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus gan [Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#).



Ysgol Gynradd Penygawsi yn defnyddio dull ysgol gyfan i edrych ar 'Stori Sam' – rhagair gan Rebecca Rees

Ar ôl mynychu'r diwrnod hyfforddiant i Llysgenhadon Gwych ym mis Medi, roedd Ysgol Gynradd Penygawsi yn eglur ynghylch Tasg Arbennig Sally o'r cychwyn cyntaf. Roedd cael cyfle i gymryd rhan fel aelod o staff yn rhai o'r gweithgareddau Stori Sam yn ystod y dydd o gymorth i mi ddatblygu dealltwriaeth dda o natur y dasg a sut bydden ni'n ei defnyddio yn ein hysgol. Ar ben hynny, roedd yr amser meddwl gyda'r Llysgenhadon ar y diwrnod i drafod y dasg yn amhrisiadwy – roedd yn golygu bod gennym ni ffordd glir ymlaen cyn i ni ddychwelyd i'r ysgol, hyd yn oed! Roedden ni'n bendant yn gytûn bod syniad Stori Sam yn rhywbeth y gallen ni fynd ag e nôl i'r ysgol.

Fe wnaethon ni wahaniaethu'r adnoddau er mwyn i ni fedru cynnwys yr ysgol gyfan, gan gynnwys y Meithrin. Mae'n bwysig bod materion megis bwlio yn derbyn sylw fel ysgol gyfan er mwyn arddangos cysondeb ac adlewyrchu'r ethos tîm rydyn ni'n credu ynddo. Rydyn ni eisiau i'n **HOLL** ddisgyblion deimlo'n ddiogel, ac rydyn ni eisiau i'r rhieni wybod bod gennym ni ddull ysgol gyfan o ddelio gyda materion bwlio os a phan byddan nhw'n codi. Roedd defnyddio Stori Sam yn ffordd wych o gyflwyno bwlio fel pwnc a darganfod beth roedd yn ei olygu i'n disgyblion.

Ar ben hynny, roeddwn i'n teimlo ei fod yn bwysig cychwyn yr wythnos drwy asesu dealltwriaeth disgyblion o union ystyr bwlio. Er mwyn gwneud hynny, fe ofynnais i'r athrawon gynnal amrywiaeth o sesiynau amser cylch gyda'u dosbarthiadau i gasglu syniadau a theimladau oedd yn ymwneud â bwlio. Roedd yn hanfodol bod y disgyblion yn deall beth yn union yw bwlio cyn mynd ati i feddwl am Sam a'i stori. Fe gafodd y disgyblion lawer o fwynhad yn siarad ac yn 'dadlwytho' rhai teimladau a phryderon ynghylch y pwnc hwn.


Mae'n wirioneddol bwysig bod rheolau amser cylch yn cael eu pennu cyn y sesiwn, fel bod y disgyblion yn deall yr angen am wrando ac ymateb mewn ffordd briodol. Mae hyn yn sicrhau bod y cylch yn teimlo'n ddiogel ac yn agored – bydd hynny'n golygu bod modd i'r disgyblion siarad yn rhydd heb deimlo fel petaen nhw'n cael eu barnu mewn unrhyw ffordd.

Fel ysgol, rydyn ni wrthi'n datblygu'r defnydd o sgiliau TGCh trwy'r cwricwlwm, a dyna pam bu'r Llysgenhadon a minnau'n ymchwilio i wahanol weithgareddau y gallen ni eu defnyddio. Fe ddaethon ni o hyd i VOKI, ac roedden nhw'n dwlu arno fe, felly roeddwn i'n gwybod y byddai'r disgyblion mewn dosbarthiadau eraill yn ei fwynhau hefyd! Pwy fyddai ddim eisiau ffrind rhithiol yn dweud pethau braf wrthyh chi, wedi'r cyfan?!

Fe wnaeth y Llysgenhadon a minnau gwrdd sawl tro i edrych ar yr adnoddau a gafwyd gan y Comisiynydd cyn trafod beth gallai pob grŵp blwyddyn ei wneud i gwblhau'r gyfres o dasgau. Y cam nesaf oedd crynhoi amrywiaeth o adnoddau a rhoi pecynnau at ei gilydd ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Wedyn rhoddwyd y pecynnau i'r staff ac fe rois i esboniad arnyn nhw yn ystod cyfarfod staff yr wythnos cyn y digwyddiad ei hun. Cynhaliodd Mr. Davies, pennaeth yr ysgol,

wasanaeth ysgol gyfan yr wythnos flaenorol i esbonio beth yw hanfod Wythnos Gwrthfwllo a'r dystiolaeth bwysig ynghylch hynny. I gychwyn Wythnos Gwrthfwllo ei hun, cynhaliodd y Llysgenhadon Gwych wasanaeth ysgol gyfan lle buon nhw'n cyflwyno Sam ac yn adrodd stori amdano/amdani. Ar ben hynny, buon nhw'n esbonio'n fanwl wrth bob grŵp blwyddyn beth oedd yn mynd i ddigwydd ar hyd yr wythnos, a'u bod yn mynd i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ar destun Bwlio yn eu dosbarthiadau.

O ran y cwricwlwm, fel ysgol rydyn ni'n dechrau cynllunio pob gweithgaredd trwy edrych ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a bydd gennym ni bob amser ffocws llythrennedd neu rifedd ym mhob gwers. Roedd gan yr adnoddau Stori Sam y rhoeson ni at ei gilydd gysylltiadau llythrennedd gwych – Darllen, Ysgrifennu a Llafaredd. Fe lwyddon ni hefyd i gysylltu'r dasg â'n cynllun gwaith ABCh, sy'n bwysig iawn ym mhob ysgol gynradd oherwydd bod llesiant pob plentyn yn elfen flaenllaw ym mhopeth a wnawn.



Ymwadiad

Nid yw Comisiynydd Plant Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am union gynnwys unrhyw ddeunyddiau a awgrymir fel ffynonellau gwybodaeth yn yr adnodd hwn, p'un a yw'r rheiny ar ffurf cyhoeddiadau printiedig neu ar wefan. Yn y deunyddiau hynny defnyddir eiconau, logos, cynnyrch meddalwedd a gwefannau am resymau cyd-destunol ac ymarferol. Ni ddylid dehongli eu defnydd fel cymeradwyaeth i unrhyw gwmnïau penodol na'u cynnyrch. Roedd y gwefannau y cyfeirir atynt yn y deunyddiau hyn yn bodoli ar adeg cyhoeddi. Gofynnir i chi wirio pob cyfeiriad at wefan yn ofalus, i weld a ydyn nhw wedi newid, a'u hamnewid am gyfeiriadau eraill lle bo hynny'n briodol.

DYDDIAD:

GRŴP BLWYDDYN: Blwyddyn 3 /4

WYTHNOS GWRTHFWLIO		
Amcan Dysgu / Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd	GWEITHGAREDDAU WEDI'U GWAHANIAETHU	Gwybodaeth Ychwanegol
Amcan Dysgu: Rhannu barn ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw ac esbonio eu barn. Adnabod, enwi a delio gydatheimpladau mewn ffordd gadarnhaol. <u>Llafaredd ar draws y Cwricwlwm</u> (Blwyddyn 3) Gwrando'n ofalus a chreu cysylltiadau rhwng y pethau maen nhw'n eu dysgu a beth maen nhw eisoes yn gwybod. Cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth.	Fel y mae'r dosbarth yn setlo'r dosbarthwch yr arolwg i bob plentyn, gofynnwch iddynt gwblhau hyn yn unigol ac yna casglwch. Bydd yr arolwg byr hwn yn cael ei gymharu â'r un arolwg sydd yn cael eu darparu ar ddiwedd y sesiynau. Bydd hyn yn eich galluogi i olrhain yr effaith o'r gweithgareddau er lles disgyblion. [Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn 2.1] <u>BETH YW BWLIO?</u> GOFYN Mae'r disgyblion yn chwarae'r gêm ‘Beth Fyddwn i'n Gwneud petai....?’ Mae'r gêm hon yn ffordd ddifyr o ddarganfod beth fydden ni'n ei wneud mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r disgyblion yn chwarae gyda'u grwpiau ac yn trafod sut byddai eu teuluoedd yn ymateb i amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd. Mae'r disgyblion yn tynnu lluniau i ddangos beth allai'r bobl sy'n byw gyda nhw wneud petai'r pethau yma'n digwydd iddyn nhw (Gweler y daflen adnoddau) Mae'r disgyblion yn eistedd mewn cylch caeedig, yn wynebu i mewn. Esboniwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i drafod bwlio. <i>Pwy sy'n gallu dweud wrtha i beth yw bwlio?</i>	Fel ysgol, roedden ni'n teimlo ei fod yn bwysig cychwyn yr wythnos trwy asesu dealltwriaeth y disgyblion o beth yn union yw bwlio. Gofynnais i'r athrawon gyflawni amrywiaeth o sesiynau amser cylch gyda'u dosbarthiadau i gynhyrchu syniadau a theimpladau o amgylch pwnc bwlio. Roedd yn hanfodol bod y disgyblion yn gwybod beth yn union yw bwlio cyn gallu meddwl am Sam a'i stori. Bu'r disgyblion yn mwynhau'n fawr y cyfle i siarad a 'dadlwytho' rhai teimpladau a phryderon ynghylch y pwnc. Mae'n wirioneddol bwysig bod Rheolau Amser Cylch yn cael eu pennu cyn y sesiwn er mwyn i'r disgyblion ddeall bod angen gwrando ac ymateb mewn modd priodol. Mae hyn yn sicrhau bod teimlad diogel, agored i'r cylch - bydd yn

(Blwyddyn 4) Ar ôl gwranddo, ymateb, gan roi barn ar yr hyn mae'r siaradwr wedi'i ddweud. Cyfrannu at drafodaeth grŵp a helpu pawb i gymryd rhan.	Rhowch yr ateb canlynol; Bwlio yw pan fyddwch chi'n gwneud rhywbeth sy'n gwneud i rywun arall deimlo'n anhapus. Pan yw hynny'n fwlio, bydd yn digwydd llawer o weithiau. DATBLYGU Defnyddiwch y PowerPoint senario bwlio. Rhowch y cardiau (gweler y daflen adnoddau) ar y llawr yng nghanol y cylch. Esboniwch wrth y plant eu bod nhw'n mynd i weithio mewn paru. Rydw i eisiau i bob pâr ddewis un cerdyn. Meddyliwch am beth sy'n digwydd yn y llun yma. <i>Ydych chi'n meddwl bod hynny'n achos o fwlio?</i> Siaradwch am hyn yn eich pâr ac yna fe wnawn ni drafod gyda'n gilydd. Rhowch gyfle i bob pâr siarad am bob un o'r senarios, ac yna gofynnwch iddyn nhw roi adborth i'r grŵp. 1) <i>Beth sy'n digwydd?</i> 2) <i>Allwch chi dynnu wyneb sy'n dangos i fi sut mae'r plant yn eich llun yn teimlo?</i> 3) <i>Ai bwlio sy'n digwydd yma?</i> Yn achos disgyblion MA gallwch awgrymu yn y fan hon pa fath o fwlio gallai hyn fod. Pwysleisiwch wrth bawb na fyddai yr un o'r sefyllfaoedd yma'n fwlio petaen nhw'n digwydd unwaith yn unig, er y gallen nhw wneud i ni ypsetio a gallai fod angen help oedolyn arnon ni i ddatrys y sefyllfa. Hefyd pwysleisiwch mai anaml y bydd ffraeo gyda ffrind yn achos o fwlio. ADFYFYRIO	golygu bod modd i'r disgyblion siarad yn rhydd heb deimlo eu bod yn cael eu beirniadu mewn unrhyw ffordd. Gall athrawon ddefnyddio Hawliau Plant i sefydlu'r amgylchedd hwn drwy greu siarter dosbarth. Lawr lwythwch boster y Comisiynydd Plant 'Deall eich Hawliau' i gefnogi eich dosbarth iddynt ddeall eu hawliau. Mae'r sesiwn hefyd yn cysylltu ag Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel. Gall athrawon lawr lwytho fersiwn hawdd i ddarllen o'r symbolau CCUHP.
---	--	--

	Mae'r disgyblion yn gweithio mewn paru i dynnu llun sy'n dangos beth gallai'r plentyn sy'n cael ei fwlio ei wneud nesaf. Tynnwch y darlun nesaf yn y gyfres. Disgyblion yn ysgrifennu geiriau allweddol yn ymyl y darlun. Dylai'r plant lunio brawddegau yn esbonio sut bydden nhw'n datrys y sefyllfa. Mae rhaid i'r plant ofalu am ei gilydd - gallen nhw ymarfer syrthio i freichiau i gilydd mewn paru i gryfhau ymddiriedaeth.	
Amcan Dysgu: Cymryd rhan mewn trafodaethau gydag un person arall a hefyd gyda'r dosbarth cyfan. Adnabod dewisiadau y gallan nhw eu gwneud, ac adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg . <u>Llafaredd ar draws y Cwricwlwm</u> (Blwyddyn 3) Esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa berthnasol. (Blwyddyn 4) Gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau a dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm	<u>SUT GALLWN NI STOPIO BWLIO?</u> GOFYN Mae'r disgyblion yn eistedd mewn cylch caeedig, yn wynebu i mewn, gyda'u partner a'u lluniau o'r sesiwn flaenorol. Ewch o amgylch y cylch a gofynnwch i'r paru esbonio beth fydden nhw'n ei wneud i ddatrys y sefyllfa roddwyd iddyn nhw. Creu cawod syniadau yn y dosbarth i ddweud wrthyn ni beth ddylen ni wneud os byddwn ni'n meddwl bod bwlio'n digwydd. Dylech bwysleisio mai'r peth mwyaf pwysig yw dweud wrth oedolyn. Rhestr addas bosibl fyddai... • Dweud wrth oedolyn. • Mynd i ddod o hyd i ffrind i chwarae gyda chi. • Esbonio wrth rywun sut rydych chi'n teimlo. • Ymuno â gêm wahanol. • Gofyn i'r person pam maen nhw'n gwneud beth maen nhw'n ei wneud. • Siarad â phobl gartref.	Ar ôl i ni drafod ystyr bwlio a delio gydag unrhyw gamsyniadau oedd gan y disgyblion, fe gawson ni ein bod ni'n naturiol yn trafod sut gallen ni atal bwlio rhag digwydd yn ein hysgol. Unwaith eto defnyddiwyd amser cylch i gychwyn y sesiwn hon. Bu'r disgyblion yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau trafod a gynhaliwyd ar hyd yr wythnos, gan fod hynny'n rhoi cyfle iddyn nhw fod yn agored ynghylch rhai problemau a theimladau oedd ganddyn nhw. Wrth drafod y ffyrdd o atal bwlio, bu'r plant yn gweithio mewn grwpiau ac yn cynhyrchu ystod eang o syniadau, ac yna'n eu rhannu gyda grŵp arall a'r dosbarth cyfan wedi hynny. Yna

(Blwyddyn 3) Nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu. (Blwyddyn 4) Casglu syniadau i gynllunio ysgrifennu.	• Dweud eich bod chi ddim yn hoffi sut mae'r person arall yn bihafio. • Dweud eich bod chi ddim yn meddwl bod hynny'n garedig iawn. • Gwybod nad eich bai chi yw e. DATBLYGU Mae'r disgyblion yn gweithio mewn parau i roi'r rhestr uchod o strategaethau mewn trefn. Mae'r disgyblion yn rhoi'r rhestr mewn trefn, gan roi rhesymau am y pethau mwyaf effeithiol a lleiaf effeithiol. Mae'r disgyblion yn rhoi'r rhestr uchod mewn trefn yn annibynnol, gan trafod gyda'r grŵp pam maen nhw wedi dewis y drefn honno. ADFIFYRIO Darllenwch y gerdd ‘Dwedwch Na i Fwlio’ ar ddiwedd y Powerpoint. Ategwch y neges fod angen i'r disgyblion DDWEUD wrth rywun os ydyn nhw'n cael eu bwlio neu os byddan nhw'n gweld rhywun arall yn cael ei fwlio.	rhoeson ni ddewis Diemwnt Naw neu Fwrdd Lens Chwyddo i'r disgyblion i ddidoli eu strategaethau a'u rhoi mewn trefn. gan feddwl am y mwyaf a'r lleiaf effeithiol. Roedd yn ddiddorol gwranddo ar y trafodaethau oedd yn digwydd a'r rhesymau am y drefn roedd y disgyblion yn ei dewis. Cyfle gwych i feddwl ar y cyd. Defnyddiwyd y gerdd ar ddiwedd y sesiwn gan ei bod yn ategu'r ffaith y dylai plant DDWEUD wrth oedolyn maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw os byddan nhw'n cael eu bwlio neu os byddan nhw wedi gweld rhywun arall yn cael ei fwlio - roeddwn i'n falch o weld bod mwyafrif y grwpiau wedi penderfynu mai dweud wrth oedolyn oedd y ffordd bwysicaf o stopio bwlio. Mae'r sesiwn yn cysylltu ag Erthygl 12: Eich hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch. Lawr lwythwch fersiwn hawdd i ddarllen o symbolau CCUHP.
--	---	---

Amcan Dysgu: Deall bod eu gweithredoedd yn effeithio arnyn nhw eu hunain ac eraill, gofalu am deimladau pobl eraill a cheisio gweld pethau o'u safbwynt nhw. Sylweddoli natur a chanlyniadau hiliaeth, pryfocio, bwllo ac ymddygiad ymosodol a sut mae ymateb iddyn nhw a gofyn am help. <u>Darllen ar draws y Cwricwlwm</u> (Blwyddyn 3) Adnabod pwnc a phrif syniadau testun yn gywir, e.e. trwy amlygu, gan ddefnyddio geiriau allweddol yn y testun. (Blwyddyn 4) Adnabod y prif bwyntiau a'r wybodaeth ategol yn gywir mewn testunau. <u>Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm</u> (Blwyddyn 3) Defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n	<u>SIONYN Y TWYN</u> Darllenwch y gerdd "Sionyn y Twyn" i'r dosbarth. Trafodwch unrhyw eirfa newydd. GOFYN Gofynnwch i'r plant 'ymateb' i osodiadau syml. Er enghraifft, <i>Ymatebwch os ydych chi erioed wedi teimlo wedi'ch ynysu, os ydych chi erioed wedi gadael rhywun allan o gêm, os ydych chi erioed wedi gweld rhywun ar ei ben ei hun yn y lle chwarae, os ydych chi'n gwybod am rywun sydd heb lawer o ffrindiau, os ydych chi'n helpu pobl pan fyddan nhw wedi cael eu gadael allan, os ydych chi'n meddwl bod Sionyn yn hapus.</i> <i>All unrhyw un feddwl am eu gosodiad eu hun?</i> DATBLYGU Mewn parau trafodwch sut mae Sionyn yn teimlo a pham. Mae'r disgyblion yn darlunio'r gerdd, gan feddwl am y geiriau a'r ymadroddion allweddol sydd angen lluniau i'w cynrychioli. Mae'r disgyblion yn tynnu llun Sionyn, gan ddefnyddio'r gerdd i'w hysbrydoli. Mae'r disgyblion yn ei labelu â geiriau o'r gerdd. Mae'r disgyblion yn creu braslun cymeriad o Sionyn, gan ei labelu â geiriau ac ymadroddion allweddol. Gallwch ddefnyddio'r adnodd hwn i helpu. ADFYFYRIO	Cafwyd y gerdd hon ei addasu o gerdd Saesneg o'r enw Samantha Jayne sydd yn ymddangos yn y cynllun gwaith ABCH 'Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu' (SEAL) sydd yn adnodd yr wyf wedi ei defnyddio ers blynyddoedd lawer. Fe ddarllenais i'r gerdd i'r dosbarth i fodelu'r mynegiant a'r teimladau y tu ôl i'r geiriau. Yna cafodd y disgyblion gyfle i ailddarllen yn eu grwpiau a thrafod yr ystyr y tu ôl i'r eirfa a ddefnyddiwyd gan yr awdur. Unwaith eto roedd yn gyfle gwyh i feddwl a thrafod ar y cyd. Roeddwn i'n teimlo bod gorffen y sesiwn hon drwy gyfeirio nôl at ymddiriedaeth eto yn bwysig, gan fy mod i am greu amgylchedd hapus lle teimlai'r disgyblion yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae'r sesiwn yn cysylltu â'r hawliau canlynol: Erthygl 12: Eich hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch.
--	--	---

berthnasol, e.e. diagramau wedi'u labelu. (Blwyddyn 4) Defnyddio gwybodaeth weledol, e.e. darluniadau, diagramau a graffiau, sy'n glir ac yn berthnasol i'r testun ysgrifenedig.	Rhowch y dosbarth i eistedd mewn cylch caeedig, yn wynebu i mewn. Rhannwch ddosbarth y plant yn grwpiau yn ôl yr emosiynau y gallai Sionyn eu teimlo (gofynnwch i'r plant beth ydyn nhw). Darllenwch y gerdd eto, a phan fydd y plant yn meddwl bod Sionyn yn teimlo eu hemosiwn "nhw", dylen nhw sefyll i fyny. <i>Tasech chi'n gweld Sionyn yn y maes chwarae ar ei phen ei hun, beth fydddech chi'n gwneud?</i> Mae'r plant yn awgrymu atebion. <i>Tasech chi'n gweld bod neb yn gweithio gyda Sionyn yn y dosbarth, beth fydddech chi'n gwneud?</i> Mae'r plant yn awgrymu atebion. <i>Tasech chi'n sylwi fod dim teulu yn dod i'r ysgol i weld Sionyn yn cymryd rhan mewn drama neu ddigwyddiad yn yr ysgol, beth fydddech chi'n ei wneud?</i> Mae'r plant yn awgrymu atebion. <i>Pryd byddwch chi'n teimlo'n drist ac yn unig?</i> Mae pob plentyn yn cael cyfle i siarad wrth i wrthrych gael ei drosglwyddo o law i law yn y cylch. Mae rhaid i'r plant ofalu am ei gilydd - gallen nhw ymarfer syrthio i freichiau i gilydd mewn paru i gryfhau ymddiriedaeth.	Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel. Erthygl 15: Eich hawl i wybodaeth onest yr ydych yn ei ddeall gan bapurau newydd a'r teledu. Erthygl 31: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod Lawr lwythwch fersiwn hawdd i ddarllen o'r symbolau CCUHP.
Amcan Dysgu: Adnabod a herio stereoteipiau. Deall bod gwahaniaethau a nodweddion tebyg rhwng pobl yn deillio o nifer o ffactorau,	PWY YW SAM? Rhowch yr wybodaeth allweddol am Sam i'r disgyblion: <i>Mae Sam yn 10 oed ac yn blentyn yn eich ysgol. Mae Sam yn dioddef bwllo. Gallai Sam fod yn fachgen neu'n ferch. Pwy yw Sam a sut mae'n edrych?</i> GOFYN Gofynnwch i'r disgyblion drafod y cwestiynau canlynol gyda'u partneriaid. <i>Pam gallai Sam fod yn dioddef bwllo? Map Meddwl - Adnodd ar gael.</i>	Cyfle arall gwyh i feddwl a thrafod ar y cyd. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau darganfod y dasg a thrafod pwy gallai Sam fod. Roedd llawer yn credu bod Sam yn fachgen ac roedd eraill yn meddwl bod Sam yn ferch. Roedd y disgyblion yn deall bod dim ots ai bachgen neu ferch oedd Sam, y peth

gan gynnwys amrywiaeth diwylliant, ethnigrwydd, hil a chrefydd, rhywedd ac anabledd. Deall ble gall unigolion, teuluoedd a grwpiau gael help a chefnogaeth. <u>Llafaredd ar draws y Cwricwlwm</u> (Blwyddyn 3) Cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth. Defnyddio siarad yn bwrpasol i gwblhau tasg mewn grŵp. (Blwyddyn 4) Cyfrannu at drafodaeth grŵp a helpu pawb i gymryd rhan. Helpu grŵp i ddod i gytundeb, e.e. ystyried rhesymau neu ganlyniadau, gan gadw'r ffocws ar y pwnc dan sylw.	<i>Sut mae Sam yn wahanol i'r plant eraill yn ei (d)dosbarth?</i> <i>Sut mae Sam yn teimlo yn ystod y bwlio?</i> <i>Sut gallen ni helpu Sam?</i> <i>Fyddai Sam yn teimlo'n wahanol petai rhywun yn helpu? Sut?</i> DATBLYGU Ar ôl trafod gyda'u partneriaid maen nhw'n creu map meddwl gyda'u grwpiau. Yna mae'r disgyblion yn anfon un aelod o'u grŵp at y grŵp nesaf i drafod eu syniadau. ADFYFYRIO Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r disgyblion. Rhowch amser iddyn nhw siarad â phartner cyn gofyn am ymatebion. <i>Ydy hi byth yn iawn meddwl 'dyw e ddim yn fusnes i fi' pan fyddwch chi'n gweld rhywun yn bod yn gas wrth rywun arall?</i> <i>Beth ddylech chi wneud os byddwch chi'n dyst i sefyllfa fwlio a dydych chi ddim yn hoffi'r person sy'n cael ei fwlio?</i>	oedd yn bwysig oedd bod bwlio'n digwydd, a bod hynny ddim yn iawn! Cafwyd trafodaeth fanwl ynghylch sut a pham gallai Sam ddioddef bwlio. Cynhyrchodd y dosbarth gawodydd syniadau manwl yn eu grwpiau. Fe wnaethon ni ddefnyddio strategaeth Mwynhau Sgil Meddwl i'r disgyblion rannu eu syniadau gyda grwpiau eraill cyn dod yn ôl fel dosbarth i'w trafod nhw i gyd. Roedd y disgyblion yn deall bod y syniadau hyn yn mynd i fod yn sylfeini ar gyfer ysgrifennu eu storïau yn ystod y dyddiau nesaf. Roedd y disgyblion yn awyddus i ysgrifennu eu storïau ac roedden nhw'n gwybod pwy fyddai Sam, pam roedd yn dioddef bwlio, a phwy fyddai'n ei helpu.
--	--	--

Amcan Dysgu: Dangos dealltwriaeth o sut gall un person (neu grŵp o bobl) fod â phŵer dros rywun arall. Dangos dealltwriaeth o rai ffyrdd o helpu rhywun sy'n cael ei fwlio i deimlo'n well. <u>Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm</u> (Blwyddyn 3) Nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu. (Blwyddyn 4) Casglu syniadau i gynllunio ar gyfer ysgrifennu. Sylweddoli natur a chanlyniadau hiliaeth, pryfocio, bwlio ac ymddygiad ymosodol a sut mae ymateb iddyn nhw a gofyn am help.	STORI SAM (Rhan 1) Esboniwrch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i ysgrifennu stori Sam. Mae angen iddyn nhw ddefnyddio'u mapiau meddwl a'u brasluniau cymeriad i'w helpu i gynllunio'u storïau. Mae'r disgyblion yn defnyddio byrddau stori i gynllunio eu storïau.	Fel ysgol rydyn ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig rhoi amser cynllunio i'r disgyblion cyn unrhyw ddarn estynedig o ysgrifennu, a dyna pam cynhalion ni ddetholiad o sesiynau cyn ysgrifennu'r storïau, fel bod y disgyblion yn cael eu hysbrydoli i ysgrifennu. Cyn pob sesiwn Ysgrifennu Mawr, mae'r disgyblion yn cael amser i gynllunio mewn modd mwy ffurfiol, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau, o siartiau llif, mynyddoedd stori a byrddau stori. Mae hynny'n rhoi cyfle i'r plant grynhoi eu syniadau a dechrau eu rhoi at ei gilydd mewn dilyniant o ddigwyddiadau. Roedd y grŵp blwyddyn hwn am lunio byrddau stori oherwydd ein bod ni'n edrych arnyn nhw yn ein pwnc animeiddio. Does dim rhaid i chi ddefnyddio byrddau stori, bydd unrhyw fath o gynllunio ysgrifenedig yn fuddiol. Rhannwyd y cynlluniau hyn gyda phartneriaid a thrafodwyd agweddau
---	--	--

		i'w dathlu a ffyrdd ymlaen. Anogwyd y disgyblion i gynnwys cynifer o fanylion â phosibl yn eu cynlluniau, gan y byddai hynny'n helpu gyda'r broses o lunio'r stori y diwrnod canlynol.
<u>Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm</u> (Blwyddyn 3) Defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml. Defnyddio cysylltiadau achos a chanlyniad, e.e. oherwydd, ar ôl Defnyddio atalnodau llawn, gofynodau, ebychnodau ac atalnodau (commas) ar gyfer rhestrau. (Blwyddyn 4) Amrywio trefn geiriau, ymadroddion a chymalau mewn brawddegau. Defnyddio cysyllteiriau i ddangos	<u>STORI SAM (Rhan 2)</u> Mae'r disgyblion yn defnyddio'u cynllunio o'r sesiwn flaenorol i ysgrifennu eu stori am Sam. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu eu storïau yn defnyddio adnoddau a strategaethau priodol, er enghraifft byrddau stori, mapiau stori neu banc geiriau. Adfyfrio Dylai'r disgyblion naill ai hunanasesu eu storïau eu hunain neu weithredu fel aseswyr cyfoedion ar gyfer stori eu partner meddwl o ran y meini prawf llwyddiant, gan ddefnyddio 2 Seren a Dymuniad. Dosbarthwch yr arolwg i bob plentyn, gofynnwch iddynt gwblhau hyn yn unigol ac yna casglwch. Bydd yr arolwg byr hwn yn cael ei gymharu â'r un arolwg sydd yn cael eu darparu ar ddechrau y sesiynau. Bydd hyn yn eich galluogi i olrhain yr effaith o'r gweithgareddau er lles disgyblion [Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn 2.1]. Cofnodwch ymatebion y dosbarth cyfan ar eich gwerthusiad athro.	Fel ysgol rydyn ni'n defnyddio'r dull Ysgrifennu Mawr ar gyfer ysgrifennu estynedig, sy'n golygu bod y plant yn cael cyfnod penodol o amser i ysgrifennu. Mae'r ystafell ddosbarth yn amgylchedd digynnwrf, gyda cherddoriaeth hamddenol yn y cefndir, goleuadau pwl a chanhwyllau ar bob bwrdd (rydyn ni'n defnyddio canhwyllau LED). Mae'r plant yn gallu cyrchu amrywiaeth o adnoddau fel matiau geiriau, banciau geiriau, thesawrws, a geiriaduron - y plant sy'n dewis y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw wrth i ni annog ein disgyblion i fod yn 'Ddisgyblion Annibynnol Iawn' (VIPs- Very Independent Pupils). Cyn pob Ysgrifennu Mawr mae'r plant yn cael set o feini prawf llwyddiant y maen nhw'n cyfeirio atynt ar hyd y broses

cysylltiadau mewn brawddegau. Defnyddio atalnodi i rannu brawddegau'n adrannau a dechrau defnyddio dyfynodau, commas i nodi cymalau ac ymadroddion, a chollnodau ar gyfer elfennau sydd wedi'u hepgor, e.e. a'i (a ei)	Anfonwch y gwerthusiad i: Gwerthusiad Athro, Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter Phoenix Way Llansamlet, Abertawe, SA7 9FS.	ysgrifennu i sicrhau eu bod yn debygol o gyrraedd eu targed o ran yr amcan dysgu. Ar ôl iddyn nhw gwblhau eu hysgrifennu, mae'r disgyblion yn cael eu hannog i asesu eu gwaith eu hunain, neu fod yn destun asesiad cyfoedion. Rhaid iddyn nhw gyfeirio at y meini prawf llwyddiant wrth wneud hynny. Mae'r agweddau i'w dathlu wedi'u tanlinellu ag inc coch (pinc i ddynodi chwerthin) ac mae'r ffyrdd ymlaen wedi'u tanlinellu ag inc gwyrdd (gwyrdd i ddynodi twf). Mae'r agweddau hyn sydd angen sylw yn rhan o'r sesiwn olygu y diwrnod canlynol. Mae'r gweithgaredd yma yn cysylltu ag Erthygl 29: Yr hawl i fod y gorau y gallwch fod. Gall athrawon lawr lwytho fersiwn hawdd i ddarllen o'r symbolau CCUHP ar wefan y Comisiynydd Plant.
--	---	--